# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 8 Chwefror 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 51(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Covid Hir

(45 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Cap ar Brisiau Ynni

(45 munud)

## 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol

(15 munud)

**NDM7907** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Pensiynau a Swyddi Barnwrol Y Gwasanaeth Cyhoeddus i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Awst 2021 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Pensiynau A Swyddi Barnwrol Y Gwasanaeth Cyhoeddus *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 6 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2022-2023

(120 munud)

**NDM7908** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 20 Rhagfyr 2021.

**Dogfennau Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn credu bod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn methu â chyflawni blaenoriaethau pobl Cymru.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 9 Chwefror 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 03/02/2022 i'w hateb ar 08/02/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

1 OQ57608 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r cyllid y bydd Cymru'n ei gael gan Lywodraeth y DU i gymryd lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

2 OQ57603 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr argyfwng costau byw?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

3 OQ57614 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OQ57607 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth gofal iechyd yng ngorllewin Cymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ57606 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi trigolion a landlordiaid mewn adeiladau sydd â diffygion diogelwch tân posibl yn sgil datganiadau diweddar gan Lywodraeth y DU?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

6 OQ57584 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

7 OQ57627 **(e)**

Pa sgyrsiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r sector manwerthu ynghylch gwella effeithlonrwydd ynni tuag at garbon sero?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ57626 **(w)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o nifer staff Llywodraeth Cymru sydd wedi'u lleoli yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ57630 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yn Nwyrain De Cymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ57595 **(w)**

Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i helpu rhieni gyda chost y diwrnod ysgol?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ57597 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

12 OQ57583 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o faglau yng Nghymru?